TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# VTCT Diploma mewn Therapi Harddwch gyda Lleoliad Gwaith Lefel 2

**Yn gryno**

Mae'r cwrs Therapi Harddwch Lefel 2 ar gyfer y rheini sydd am ddechrau yn y diwydiant harddwch neu symud ymlaen o Therapi Harddwch Lefel 1 i'r rhan fwyaf o driniaethau Therapi Harddwch Sylfaenol.

**Dyma'r cwrs i chi os...**

... Oes ydych chi'n meddu ar ddiddordeb brwd mewn Therapi Harddwch

... Os ydych chi am ddysgu sgiliau a thechnegau harddwch newydd i wella eich set sgiliau presennol

... Ydych chi'n ystyried gyrfa fel Therapydd Harddwch

**Beth fyddaf yn ei wneud?**

# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Byddwch chi'n dysgu am ymgynghoriadau ac unedau megis:

Trin dwylo
Trin traed
Trin wyneb
Wacsio
Colur
Dyletswyddau derbynfeydd salonau
Iechyd a diogelwch
Gofal cleientiaid
Trin amrannau ac aeliau

Lliw haul
Codi Aeliau
Cyflwyniad i godi aeliau

O fewn pob un o'r unedau hyn byddwch chi'n cymryd asesiadau ymarferol i ddangos eich cymhwysedd ymarferol yn ogystal ag arholiadau ac aseiniadau sy'n cwmpasu pob canlyniad meini prawf i allu sicrhau y cyflawnir popeth.

**Beth a ddisgwylir ohonof i?**

Bydd disgwyl i chi fynychu pob sesiwn, gweithio'n galed a chwblhau asesiadau ymarferol ar gleientiaid sy'n talu gan fod y salon yn sefydliad hyfforddi realistig.

Bydd rhaid i chi: fod yn hunan-gymhellol ac yn weithgar, ymfalchïo yn eich edrychiad, bod yn rhifog a meddu ar bersonoliaeth gyfeillgar.

Bydd disgwyl i chi weithio ar gleientiaid sy'n talu, y gellir rhywfaint o'r rhain fod yn deulu neu ffrindiau i allu cwblhau asesiadau ymarferol lle bo angen. Fodd bynnag, os oes yna apwyntiadau allanol a drefnwyd, bydd rhaid iddyn nhw ddod yn gyntaf bob tro.

Bydd disgwyl eich bod chi'n mynychu lleoliad gwaith fel rhan o'r rhaglen.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Cod gwisg:

Gwisg unffurf

# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Rhaid clymu gwallt yn daclus i ffwrdd o'r wyneb
Defnyddio colur bob dydd
Ni chaniateir tyllu, a dim ond modrwy briodas y caniateir ei gwisgo yn y salon

Fel amod o'ch lle ar y cwrs hwn, bydd disgwyl i chi brynu'r cit priodol, o'n cyflenwr cymeradwy, sydd yn costio tua £86 yn amodol ar adolygiad/costau yn cynyddu oherwydd chwyddiant.

I allu adlewyrchu disgwyliadau y diwylliant, bydd disgwyl i chi wisgo gwisg salon Coleg Gwent y gellir ei harchebu o'n cyflenwr cymeradwy. Gellir cael gafael ar fanylion ar sut  i archebu eich gwisg, gydag opsiynau i dalu'r cyflenwr, o'ch Pennaeth Ysgol, Darlithydd neu Dechnegydd. Cost 2024/2025 yw tua £45, yn amodol ar gynyddu oherwydd chwyddiant.

Gall costau ychwanegol godi yn ystod y flwyddyn ar gyfer ymweliadau addysgol.

Mae pob cost dan adolygiad ac yn amodol ar newid.